# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 10fed Ionawr, 2022**, drwy gyfrwng 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)
Ymddiheuriadau Y Cynghorwyr Elin Hughes, Gwenan Griffith

## 82. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Tynnodd y Cadeirydd sylw at e-bost dderbyniwyd gan Mel ab Owain o Un Llais Cymru fel a ganlyn:
"o dan y gyfraith gall 30 o bobl gwrdd mewn ystafell. Beth bynnag, o ystyried y cynnydd serth mewn achosion COFID, byddwn yn awgrymu'n gryf ein bod yn cwrdd o bellter am y tro."
Yn wyneb hyn, penderfynodd y Cadeirydd cynnal y cyfarfod hwn yn rhithiol a gofynnodd am arweiniad am gyfarfodydd yn y dyfodol.
**Penderfynwyd** cynnal cyfarfod mis Chwefror yn rhithiol ac yna edrych ar y sefyllfa yn y cyfarfod hwnnw. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd David Brunelli ac eilwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans gyda phawb yn cefnogi.
Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Michael Strain am drefnu i'r Cyngor gael cyfarfod yn rhithiol.

## 83. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw.

## 84. CADARNHAU COFNODION

**Cyflwynwyd** a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 13eg Rhagfyr, 2021. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans.
**Mater yn codi – Eitem 78 Materion Iechyd cymal (b) Meddygfa Rhybach (cais gan Mr. Geraint Hughes)**
Yn dilyn ymholi gyda Un Llais Cymru er cael eu sylwadau ar yr hawl i anfon`gwybodaeth dderbyniodd y Cyngor oddi wrth Feddygfa Rhydbach ymlaen i Mr. Geraint Hughes fel y gall yntau ei anfon at Mr. Dewi Roberts, cynrychiolydd ar Fwrdd Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru, nodir isod yr atebiad:
"Mae Cyngor Cymuned yn gorff cyhoeddus ac fel rheol ni ddylid cadw llythyrau ato o olwg y cyhoedd. Yn yr achos hwn ni welaf unrhyw broblem danfon y llythyr ymlaen yma gan ei fod yn crybwyll Mr. Hughes."
**Penderfynwyd** gweithredu fel yr uchod.

## 85. CEISIADAU CYNLLUNIO

**Ni dderbyniwyd** unrhyw gais cynllunio yn ystod y mis.

## 86. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

(a) **Gwaith ar dai Cyngor Bryn Mair, Bryncroes**

**Yn dilyn** gwneud ymholiadau gyda'r Ymgymerwyr, W.F. Clayton a'r Cwmni, oedd yn gweithio ar dai'r Cyngor ym Mryncroes ac wedi gosod eu hadeiladau symudol ar y Comin, derbyniwyd ymateb gan y Cyfarwyddwr, Mr. Paul Williams: Dyfynnir o'r llythyr yn Saesneg rhag camddehnogli:

"We do apologise for the misunderstanding between us and ADRA as we took to believe that the patch of land belonged to ADRA. This plot will be put back as it was with topsoil and seed and made good.

Regarding the community benefit that we as contractors do give back to the community this has already been allocated to Mynytho Primary School as Ardd Fawr and Parciau is part of the same contract as Bryncroes. As a gesture of good will and for the inconvenience caused a bench will be donated to the Bryncroes area."

**Penderfynwyd** ymateb i'r Cwmni gan ddiolch yn y lle cyntaf am eu hymrwymiad i adfer y Comin i'w gyflwr cyn dechrau'r gwaith.
O berthynas i'r cyfraniad o dan y cynllun cymunedol, datgan siom fod y cyfraniad hwn wedi ei wneud Ysgol Gynradd Mynytho o gofio fod Ardd Fawr a Parciau mewn cymuned hollol wahanol i Fryn Mair, Bryncroes, a nodi fod y Cyngor yn teimlo y dylid cyfrannu peth o'r arian er budd y gymuned, e.e. Ysgol Feithrin Bryncroes ac Ysgol Pont-y-Gof.
O berthynas i osod mainc arall ar y Comin, hysbysu'r Cwmni nad oeddynt o'r farn fod angen mainc ychwanegol hyn oherwydd y diffyg defnydd, y costau o yswirio a chynnal y fainc.

(b) **Ailgylchu**
**Yn dilyn** cwynion anfonwyd at y Swyddog Gwastraff ac Ailgylchu ynglyn a'r llanast a adewir gan y cerbyd ailgylch derbyniwyd ymateb y Swyddog fel a ganlyn:
"Yn dilyn eich ymholiad cafodd y pryder ei basio ymlaen at ein arweinyddion casglu sydd yn gwasanaethu'r ardaloedd dan sylw.
Gyda hyn rydym yn gallu dehongli pa gerbydau sydd yn defnyddio'r ffordd yma. Mae ein criwiau yn gwneud pob ymdrech i fod mor ofalus â phosib (h.y ddim yn gadael y caestys ar agor wrth deithio), ond yn annatod mae rhai achosion lle mae eitemau yn gallu chwythu mewn tywydd garw.
Fel arfer da, ac o brofiad rydym yn derbyn adroddiadau gan ein criwiau hefyd yn aml pan fydd tywydd garw a llanast yn cael ei greu cyn y casgliad, gyda lluniau fel tystiolaeth, er mwyn lliniaru unrhyw bryderon sydd yn cael eu mynegi gan drigolion sydd yn cysylltu, ac hefyd er mwyn i ni allu sicrhau gweithrediad gan ein timau glanhau strydoedd. Nid yw ein timau yn cael gwneud unrhyw lanhau ar dir preifat.
Bydd yr arweinyddion yn cadw golwg ar y sefyllfa am gyfnod, ac yn adrodd yn ôl gydag unrhyw sylwadau.

Rydym yn annog ein trigolion, yn enwedig mewn tywydd garw difrifol i ddefnyddio eu doethineb o ran cyflwyno Ailgylchu pan fydd tywydd garw yn cael ei ragweld, ac os nad oes cart llawn i ailgyflwyno yr wythnos ganlynol.
Rydym hefyd yn annog defnydd o'r ganolfan Ailgylchu (pa bynnag un sydd agosaf/hwylusaf i'r trigolion) er mwyn gwaredu unrhyw wastraff ychwanegol o ran Ailgylchu, neu hyd yn oed y math o wastraff y gellir ei Ailgylchu, ond ddim ei gasglu o ochr y ffordd.
Mae gan Gymru gyfan dargedau Ailgylchu 70% o'n Gwastraff erbyn 2025 gan ddefnyddio sawl modd gwahanol o ran canolfannau ac o gasglu; rydym ni fel

sawl awdurdod arall yn defnyddio y cart fel modd o wneud hyn wedi ei ddidoli o ochr y ffordd, gan gael y trigolion i ddidoli er mwyn lleihau lefelau llygredd ac i ddiogelu cywirdeb y deunyddiau ar gyfer y broses Ailgylchu, a'r hyn sydd yn gweithio orau o ran gwerth gorau o ran ein safleoedd prosesu.
Mae ein Tîm Ailgylchu hefyd yn gwneud pob ymdrech i godi ymwybyddiaeth am y drefn hanfodol hon, ac yn ymdrechu i gynnal ymgyrchoedd pan fo adnoddau yn caniatâu.

Byddaf fel Swyddog hefyd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau cynnal ymweliadau cyson er gweld fod y sefyllfa yn gwella, ac mae croeso i chi gysylltu â mi os cyfyd unrhyw achos penodol."
**Penderfynwyd** nodi'r atebiad a chadw golwg ar y sefyllfa.

(c) **Lon Tyddyn Hen i Nyth Dryw**
**Penderfynwyd** tynnu sylw'r Adran Priffyrdd at gyflwr y ffordd yma.

**(ch) Baw ci ar strydoedd Pwllheli**
**Adroddwyd** fod cwynion i law ynglyn a baw ci ar y strydoedd ym Mhwllheli ac addawodd Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, gael gair a'r Swyddog priodol.
**Diolchwyd** i'r Cynghorydd Gareth Williams.

87. **BINIAU HALEN**

**Cyflwynwyd** llythyr Peiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, yn hysbysu y byddant "fel ychwanegiad i'r Gwasanaeth Cynnal yn y Gaeaf, yn darparu halen i'r biniau pwrpasol sydd yn eich cymuned yn bresennol yn ddi-dâl o hyn ymlaena gaiff ei weithredu arno yn syth" (dyddiad y llythyr 16eg Rhagfyr, 2021). Addawodd yr aelodau y byddant yn cael golwg i wneud yn sicr fod y biniau wedi eu llenwi.
O berthynas i gais y Cyngor am fin halen ar Ystad Bryn Mair, Bryncroes, ni dderbyniwyd unrhyw ymateb a **phenderfynwyd** mynd ar ôl y Cyngor unwaith yn rhagor.

88. **MATERION IECHYD**
Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

89. **PRAESEPT 2022/23**

**Cyflwynwyd**
a) Adroddiad yr Is-bwyllgor Ariannol gynhaliwyd yn gynharach ar y noson, lle cyfarfu'r Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd), Y Cynghorwyr David Brunelli, Glyn Roberts a Glenys Williams gydag ymddiheurad gan Y Cynghorydd Ifor Owen.
Rhoddodd y Cadeirydd amlinelliad fel a ganlyn o'r sefyllfa ariannol:
Hyd 6ed Ionawr, 2022:

| | |
|---|---|
| Gwariwyd | £2,639.43 |
| Derbyniwyd | £7,228.32 |

Nodyn – bydd £80 yn cael ei dynnu allan o'r swm yma gan i Llechen Llyn dalu i'r cyfrif anghywir

| | |
|---|---|
| Balans ar 6ed Ionawr, 2022 | **£9,867,75** |

Taliadau 'rydym yn ymwybodol ohonynt, ddaw yn ddyledus hyd 31ain Mawrth, 2022

| | |
|---|---|
| J.A. Pozzi – barbio'r Fynwent, Comin a Llwybrau | £1,824.00 |
| HMRC (Mawrth) | £ 93.20 |
| Cyflog y Clarc (Mawrth) | £ 372.55 |
| Stampiau a.y. (dyweder) | £ 30.00 amcan |
| Glyn Roberts – giatiau'r Fynwent | £ 525.00 |
| | **£2,844.75** |

Hefyd - Noder nad yw'r Cyngor wedi derbyn anfoneb am osod arwydd Santes Mair Bryncroes (swm y gytunwyd oedd £198 yn cynnwys TAW) er i hyn ddigwydd yn ystod 2020/21.

**Cyfraniadau ariannol**

Mae gan y Cyngor hawl i gyfrannu £8.32 yr etholwr (£8.32 x 739 hwn yn ffigwr 2020/2021 o etholwyr) - £6,148.48

Mae tri chais i law am gyfraniad ariannol ar gyfer mis Ionawr sef gan
Cylch Meithrin Bryncroes
Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Sir Ddinbych 2022
Hosbis Dewi Sant

Os bydd y Cyngor yn cyfrannu ar yr un raddfa ac o'r blaen bydd cyfanswm y cyfraniadau hyn yn dod i £175.
Hefyd yng nghyfarfod 13eg Ionawr, 2020, penderfynodd y Cyngor gyfrannu £1,000 ym mis Chwefror, 2020 gydag ymrwymiad o £1,000 arall yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/21 tuag Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2021 ym Moduan. Wrth gwrs nid oes Eisteddfod wedi ei chynnal yn y gobaith y bydd ym Moduan yn 2023 'nawr.

Credwn y byddwn yn cael ei beirniadu eleni am gadw cymaint o arian yn ôl – amcan £6,848 yn y ddau gyfrif – hyn wedi tynnu'r taliadau o £2,844.75 a £175 cyfraniadau (os bydd y Cyngor yn cytuno ar yr un ffigwr).

**Argymhellion o'r Is-bwyllgor i'r Cyngor**

a) Fod y swm o £1,000 yn cael ei drosglwyddo i Gronfa'r Fynwent.
b) Penodi Luned Fon Jones o Wasanaeth Archwilio Cyngor Gwynedd fel Archwiliwr Mewnol.
c) Glynu at yr un swm ar gyfer y praesept, sef £6.500.
   Nodyn - llynedd codwyd y "praesept i £6,500 ar sail fod yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i'r ardal a byddai hynny'n chwyddo'r economi'r ardal.

Hefyd derbyniodd pob aelod gopi o'r fantolen ariannol i fyny i 5ed Ionawr, 2022.

**Penderfynwyd** diolch i'r Is-bwyllgor am ystyried y cyfrifon ac am yr adroddiad ac fod y Cyngor am weithredu'n unol a'r argymhellion a'r praesept i barhau i fod yn £6.500 am y flwyddyn ariannol 2022/23.

90. **CYFRANIADAU ARIANNOL**

**Cyflwynwyd** ceisiadau am gyfraniadau ariannol a **phenderfynwyd** cyfrannu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cylch Meithrin Bryncroes | £100 (siec 200741) |
| Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2022 | £25 (siec 200742) |
| Hosbis Dewi Sant | £50 (siec 200743) |

91. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| J.A. Pozzi – barbio Mynwent Llandegwnnig (o gronfa'r Fynwent | £625 (siec 100051) |
| J.A. Pozzi – barbio Comin Bryncroes | £1,092(siec 200745) |
| J.A. Pozzi – barbio llwybr Pengopa a Llwybr Bach | £108 (siec 200745) |

Awdurdodwyd, pherwydd fod y Cyngor yn cyfarfod yn rhithiol, fod y Clarc yn cysylltu a'r Cynghorydd Glenys Williams i arwyddo'r sieciau – felly byddai'r Cynghorydd Williams a'r Clarc yn arwyddo'r chwe siec y tro hwn.

(Noder mai'r enwau sydd wedi eu hawdurdodi i arwyddo sieciau ar ran y Cyngor yw'r Cynghorwyr David Brunelli, Ifor Owen, Glenys Williams a'r Clarc).

92. **LLIFOGYDD AR YR A499 PWLLHELI I LLANBEDROG**

**Cyflwynwyd** llythyr gan Glerc Cyngor Cymuned Llanbedrog yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i'w bwriad i anfon llythyr at Mark Draeford a Julie James yn y Cynulliad, Y Prif Weithredwr a Phennaeth Priffyrdd Cyngor Gwynedd a Phrif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn a'r llifogydd ar yr A499 Pwllheli i Llanbedrog. 'Roedd copi o'r llythyr bwriededig yn amgaeedig gyda'r llythyr a **phenderfynwyd** cefnogi Cyngor Llanbedrog.

93. **GWAHODD TENDRAU BARBIO**

**Penderfynwyd** rhoddi hysbyseb yn rhifyn Chwefror o Llanw Llyn yn gwahodd tendrau am farbio tiroedd y Cyngor.

Noder fod y gwaith eleni i gynnwys Eglwys Llandegwnning, Comin Bryncroes a'r Comin Bach ger y Ffynnon ym Mryncroes.

94. **GWRANDAWIADAU CYHOEDDUS**

**Noder** fod yr ail gyfnod ymgynghori yn agor ar 17eg Chwefror ac yn cau ar 30ain Mawrth, ynglyn a'r ffiniau.